WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 214A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts and Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

**Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 5

Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran sicrhau gwelliannau yn y meysydd hynny yr oedd wedi nodi eu bod yn flaenoriaeth uchel 6

Cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad cynhwysfawr o'r graddau y llwyddodd i gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 11

Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella wedi hen sefydlu ac fe'u hategir gan drefniadau rheoli asedau effeithiol a dull adeiladol o werthuso ei drefniadau llywodraethu 12

Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliannau 15

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 18

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 19

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 20

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 22

# Adroddiad cryno, argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14.

2 Cafwyd bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn 2012-13 i gyflawni gwelliannau yn y meysydd hynny a nodwyd yn flaenoriaeth uchel, yn benodol:

- er bod llai o ymwelwyr wedi defnyddio ei ganolfannau ymwelwyr, mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg fodern i ymgysylltu â'i randdeiliaid;
- parhaodd yr Awdurdod i hyrwyddo dealltwriaeth well o'r hyn sydd gan y Parc i'w gynnig a'r ffordd y mae ei waith yn cyfrannu at ddiogelu'r Parc; ac
- mae adborth gan aelodau a staff yn awgrymu bod trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod yn gwella.

3 Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyhoeddi asesiad cynhwysfawr o'r graddau y llwyddodd i gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13.

4 Yn olaf, nodwyd, yn ystod 2013-14, fod cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella wedi hen sefydlu a'u bod yn cael eu hategu gan drefniadau rheoli asedau effeithiol a dull adeiladol o werthuso ei drefniadau llywodraethu.

5 Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliannau.

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn ond ceir un cynnig ar gyfer gwella isod.

| | |
|---|---|
| C1 | Ar ôl gwneud cynnydd o ran llawer o'r amcanion gwella a oedd yn dal ar waith rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2014, dylai'r Awdurdod fanteisio ar y cyfle i gynnal adolygiad sylfaenol o'r rhain yng nghyd-destun yr heriau ariannol sydd bellach yn wynebu'r Awudurdod. |

# Adroddiad Manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran sicrhau gwelliannau yn y meysydd hynny yr oedd wedi nodi eu bod yn flaenoriaeth uchel

11 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny a nodwyd gan yr Awdurdod fel amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos pa un a gyflawnwyd yr amcanion hyn ai peidio.

12 Aeth yr Awdurdod ati i adolygu ei amcanion ar gyfer 2011-12 yng nghyd-destun yr adborth a gafodd o'i ymgynghoriad a daeth i'r casgliad y dylai'r un amcanion gwella gael eu mabwysiadu ar gyfer 2012-13. Roedd hyn yn rhannol oherwydd, ar gyfer rhai amcanion gwella, 2011-12 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd ffigurau sylfaenol newydd eu casglu ac, yn rhannol, oherwydd bod yr Awdurdod yn teimlo bod angen gwneud gwelliant pellach mewn rhai meysydd.

## Er bod llai o ymwelwyr wedi defnyddio ei ganolfannau ymwelwyr, mae'r Awdurdod yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg fodern i ymgysylltu â'i randdeiliaid

13 Pennodd yr Awdurdod dargedau iddo'i hun i gynyddu nifer yr ymwelwyr â phob un o'i ganolfannau croeso yn ystod 2012-13. Fodd bynnag, dengys y ffigurau ar gyfer 2012-13, yn ogystal â methu â chyflawni'r un o'r targedau hynny, fod nifer yr ymwelwyr â phob canolfan croeso yn llai nag yn 2011-12[1]. Bu lleihad o 48,000 yng nghyfanswm yr ymwelwyr i ychydig dros 255,000 – sef gostyngiad o bron 16 y cant. Roedd nifer yr ymwelwyr yn 2012-13 hefyd 13.5 y cant yn llai nag yn 2010-11. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod hyn o bosibl yn gysylltiedig â'r tywydd.

14 Roedd cynyddu'r gwariant cyfartalog fesul ymwelydd yn ei ganolfannau croeso yn darged arall yr oedd yr Awdurdod wedi'i bennu iddo'i hun. Unwaith eto, roedd y canlyniadau islaw'r targed ac, yn achos pedair allan o'r pum canolfan croeso, roeddent yn is na'r gwariant cyfartalog yn 2011-12, gyda'r ganolfan croeso sy'n weddill yn gweld yr un gwariant cyfartalog ag a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Gan ddefnyddio'r ffigurau ar gyfer pob un o'r pum canolfan croeso, roedd gwariant tua 3.5 y cant yn is ar gyfartaledd. Er ei bod yn bosibl bod y sefyllfa ariannol yn y DU wedi golygu bod ymwelwyr yn tueddu i wario llai, gellid bod wedi disgwyl i hyn gael ei wrthbwyso'n rhannol gan chwyddiant.

15 Ers blynyddoedd lawer mae canolfannau croeso'r Awdurdod wedi chwarae rôl bwysig o ran helpu pobl i fwynhau a deall y Parc. Mae datblygiadau mewn technoleg, yn arbennig y cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r rhyngrwyd, yn newid y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth fwyfwy. Mae'n ddigon posibl bod y datblygiadau hyn wedi cyfrannu at anallu'r Awdurdod i gyflawni rhai o'r targedau y pennodd iddo'i hun yn ystod 2012-13 a'r ffaith bod y canlyniadau yn is na'r rhai a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol.

16 Mae'n bosibl bod y ddamcaniaeth hon yn cael ei hategu'n rhannol gan berfformiad yr Awdurdod o ran y defnydd o'i wefan. Yn 2012-13, cofnododd yr Awdurdod fwy na 379,000 o ymwelwyr unigryw. Er bod hwn yn lleihad, ar yr olwg gyntaf, o'i gymharu â'r 392,000 a gofnodwyd yn 2011-12, yn y cyfamser newidiodd Google ei ffordd o gyflawni'r mesuriad hwn. Gan gymhwyso'r system gyfrifyddu newydd at y ffigurau ar

1 Mae'r lleihad arbennig o fawr yn nifer yr ymwelwyr â chanolfan croeso Betws-y-Coed i'w briodoli i'r ffaith bod y ganolfan ar gau am ran o dymor yr hydref.

gyfer 20111-2, cyfrifodd yr Awdurdod fod nifer yr ymweliadau yn 2011-12 tua 270,000. Ar y sail hon, a chan ddefnyddio'r ffigurau gwirioneddol a gofnodwyd, bu cynnydd o fwy na 40 y cant yn nifer yr ymwelwyr unigryw â gwefan yr Awdurdod.

17 Er bod y gwariant cyfartalog yn y canolfannau croeso, a nifer yr ymwelwyr â hwy, wedi lleihau, dengys canlyniadau arolwg yr Awdurdod ei hun fod canran yr ymwelwyr â'r canolfannau hynny a oedd yn fodlon iawn wedi cynyddu ychydig o 72.5 y cant yn 2011-12 i 73 y cant, er ei bod yn is na tharged yr Awdurdod, sef 75 y cant. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwynion ynghylch y canolfannau croeso.

18 Wrth gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau electronig, nododd yr Awdurdod wybodaeth sylfaenol yn 2011-12 ar gyfer rhai meysydd perthnasol, y gallai fesur cynnydd yn 2012-13 yn ei herbyn. Mae'r adroddiad hwn eisoes wedi nodi'r canlyniadau ar gyfer amcan yr Awdurdod o ran ymweliadau â'i wefan. Mae gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd gan yr Awdurdod yn awgrymu bod y ffordd y mae'n defnyddio gwasanaethau electronig yn parhau i wella. Er enghraifft:

- nododd canlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan yr Awdurdod fod pawb a arolygwyd yn fodlon ar yr amrywiaeth o wasanaethau electronig a ddarperir gan yr Awdurdod a'u hansawdd, o gymharu ag 85 y cant a oedd yn fodlon yn 2011-12; a

- lleihaodd nifer y bobl a gofnododd broblemau technegol o 17 yn 2011-12 i 10 yn 2012-13.

19 Mae'n ddigon posibl y bydd perfformiad yr Awdurdod o ran gwasanaethau electronig yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol os yw'r Awdurdod yn bwriadu ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ymateb i'r nifer o ymwelwyr â'i ganolfannau croeso sy'n lleihau.

## Parhaodd yr Awdurdod i hyrwyddo dealltwriaeth well o'r hyn sydd gan y Parc i'w gynnig a'r ffordd y mae ei waith yn cyfrannu at ddiogelu'r Parc

20 Roedd gwella dealltwriaeth amrywiaeth o randdeiliaid a staff yr Awdurdod yn thema gyffredin drwy lawer o amcanion gwella'r Awdurdod yn 2012-13, naill ai fel amcanion gwella ynddynt eu hunain neu fel mesurau a oedd yn helpu i ddangos p'un a oedd amcanion gwella wedi'u cyflawni ai peidio. Ar ôl nodi ffigurau sylfaenol yn 2011-12, mae'r canlyniadau ar gyfer 2012-13 yn awgrymu bod camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod hwnnw wedi bod yn effeithiol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- cynyddodd canran y staff a'r aelodau yr oedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd y cyfrannai'r hyn a wnaent at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod o linell sylfaen o 89 y cant yn 2011-12 i 91 y cant yn 2012-13;

- cynyddodd canran y bobl anabl, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a fynychodd ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr Awdurdod ac a ddywedodd fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn a wna'r Awdurdod a nodweddion arbennig y Parc o 70 y cant yn 2011-12 i 85 y cant yn 2012-13; a

- chynyddodd canran defnyddwyr gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod yr oedd ganddynt ddealltwriaeth well o'i bolisïau cynllunio o 80 y cant yn y flwyddyn flaenorol i 83 y cant yn 2012-13.

21 Mae'r ddealltwriaeth well a awgrymwyd gan y pwynt bwled olaf uchod yn gyson â'r cynnydd yng nghanran y ceisiadau cynllunio dilys a gafwyd gan yr Awdurdod o ffigur sylfaenol o 57.5 y cant i 63 y cant yn 2012-13.

22 Mae penderfyniadau cynllunio ym mhob awdurdod cynllunio weithiau yn achosi rhywfaint o gynnwrf. Gellir priodoli llawer o hyn i ddealltwriaeth annigonol o pam a sut y mae penderfyniadau cynllunio a gorfodi yn cael eu gwneud. Nod yr Awdurdod oedd sicrhau bod gan bobl ddealltwriaeth well o pam a phryd y caiff camau gorfodi eu cymryd. Ar ôl nodi gwybodaeth sylfaenol yn 2011-12, cynhaliodd yr Awdurdod nifer o weithdai a sesiynau hyfforddi ac aeth ymlaen i werthuso, yn ystod 2012-13, a oedd wedi llwyddo i wella dealltwriaeth o faterion cynllunio. Canfu'r Awdurdod fod canran yr unigolion hynny a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth gorfodi cynllunio yr oedd ganddynt ddealltwriaeth dda o pam a phryd y caiff camau gorfodi eu cymryd wedi cynyddu o 43 y cant yn 2011-12 i 60 y cant yn 2012-13, a oedd gryn dipyn yn uwch na tharged yr Awdurdod, sef 50 y cant.

23 Fodd bynnag, ni wellodd rhai agweddau ar ddealltwriaeth. Er enghraifft:

- gostyngodd canran y Cynghorau Cymuned a rhanddeiliaid allweddol yr Awdurdod a ddywedodd fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn a wna'r Awdurdod a nodweddion arbennig y Parc o 100 y cant i 97 y cant;
- gostyngodd canran yr aelodau a nododd fod ganddynt ddealltwriaeth well o bolisïau cynllunio o 100 y cant i 96 y cant ac arhosodd lefelau dealltwriaeth ymhlith asiantau ac aelodau cynghorau cymuned yn ddigyfnewid ar 93 y cant.

24 Er na wellodd y lefelau o ddealltwriaeth y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff uchod, roeddent yn dal i fod yn uchel, sy'n awgrymu nad ydynt yn feysydd y bydd angen i'r Awdurdod eu nodi mewn blynyddoedd i ddod fel rhai y mae angen rhoi cryn bwyslais arnynt.

## Mae adborth gan aelodau a staff yn awgrymu bod trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod yn gwella

25 Mae trefniadau rheoli perfformiad yn allweddol i sicrhau y cyflawnir camau gweithredu arfaethedig a all arwain at ganlyniadau i randdeiliaid. Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn cynnwys dyhead i sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn dod yn fwy effeithiol ac, yn 2011-12, dewisodd yr Awdurdod rai mesurau sylfaenol y credai y gellid eu defnyddio fel dangosyddion perfformiad. Nodir gwybodaeth am y rhain yn y paragraffau canlynol.

26 Cynyddodd canran y staff a oedd o'r farn bod eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o 74 y cant yn 2011-12 i 76 y cant yn 2012-13. Er bod y ganran hon islaw targed yr Awdurdod, sef 78 y cant, mae'n dangos gwelliant graddol[2]. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellid gwneud mwy i wella'r agwedd hon ac mae'n bwriadu trafod y materion â'r aelodau hynny o staff sy'n credu nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd. Ni ddatgelodd gwaith dadansoddi ychwanegol gan yr Awdurdod batrwm amlwg na phroblem mewn unrhyw ran benodol o'r sefydliad.

27 Un maes y cyfeiriwyd ato yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd oedd mai dim ond ychydig dros 33 y cant o'r staff a oedd yn fodlon iawn ar yr arweiniad a'r gefnogaeth roeddent yn eu cael gan eu rheolwyr llinell. Fodd bynnag, roedd 53 y cant ychwanegol o'r staff yn fodlon ar yr agwedd hon, sy'n golygu bod 86 y cant naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn. Yn 2012-13 mae mater tebyg wedi dod i'r amlwg. Dim ond 31 y cant o'r staff oedd yn fodlon iawn ar yr arweiniad yr oeddent yn ei gael gan eu rheolwyr llinell, o gymharu â therged o 40 y cant. Dengys gwaith dadansoddi pellach fod 65.5 y cant arall yn fodlon. Mae hyn yn awgrymu bod mwy na 96 y cant o'r staff naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn. Dengys hyn welliant sylweddol o'i gymharu â'r un canlyniad yn 2011-12.

28 Mae cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn agwedd bwysig ar y gwaith o fonitro cynnydd. Fel gyda'r mesurau eraill y cyfeiriwyd atynt uchod, mae adroddiadau yn helpu i hyrwyddo dealltwriaeth well o'r ffordd y mae staff ac aelodau yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod. Yn 2012-13, roedd pob un o'r aelodau a ymatebodd i arolwg a gynhaliwyd gan yr Awdurdod o'r farn bod yr adroddiadau a gawsant ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion gwella yn amserol ac yn effeithiol. Mae hyn yn cymharu â 89 y cant yn 2011-12 a tharged o 90 y cant.

29 Agwedd benodol ar berfformiad a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 oedd cymryd llai o amser i ddatrys achosion o waith datblygu heb ei awdurdodi. Er bod canran yr achosion a ddatryswyd o fewn 12 wythnos ychydig yn is na tharged yr Awdurdod, sef 60 y cant, gwellodd yr Awdurdod ei berfformiad o ran y mesur hwn o 53 y cant i 58 y cant. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried opsiynau i ddatblygu mesurau perfformiad newydd ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru. Mae'n ddigon posibl y caiff y mesurau hyn eu llywio gan ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Cynllunio drafft a'i chynigion i foderneiddio'r system gynllunio yng Nghymru.

2 Nododd arolwg dilynol o staff a gynhaliwyd yn ystod 2013-14 ac a oedd yn ymdrin â'r un mater fod y ganran hon wedi cynyddu i fwy na 83 y cant.

## Mae’r Awdurdod yn hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg gan ei staff ac mae ganddo rywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y cyhoedd yn fodlon ar ei gynllun Iaith Gymraeg

30 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

31 Mae’r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o’u rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â’r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i’r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu’r cynllun iaith. Mae’r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

32 Cynhaliodd yr Awdurdod arolwg o farn y cyhoedd ar weithredu’r cynllun iaith Gymraeg yn 2012-13, ond ychydig o ymateb a gafwyd. Ni weithredwyd ar argymhelliad y Comisiynydd i dynnu sylw’r cyhoedd at yr arolwg. Fodd bynnag, awgryma’r dystiolaeth fod y cyhoedd yn fodlon ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae’r rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd a hysbysebwyd yn ystod 2012-13 a phenodwyd siaradwr Cymraeg ym mhob achos lle bu penodiad.

## Cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad cynhwysfawr o’r graddau y llwyddodd i gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13

33 Ym mis Ionawr 2014, gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod i’w hysbysu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o’i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella ar gyfer 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut roedd yr Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer sawl maes a, lle roedd yn briodol ac ar gael, cymharodd ei berfformiad â’i berfformiad yn y flwyddyn flaenorol a pherfformiad awdurdodau parciau cenedlaethol eraill;
- gwerthusodd yr Adroddiad lwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni ei amcanion gwella;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr adolygiad; ac
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y ffyrdd yr oedd yr Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

34 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae’r Archwilydd Penodedig o’r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella wedi hen sefydlu ac fe'u hategir gan drefniadau rheoli asedau effeithiol a dull adeiladol o werthuso ei drefniadau llywodraethu

35 Gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod ym mis Medi 2013 i'w hysbysu o'n barn ar y trefniadau yr oedd yr Awdurdod wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau gwelliannau yn ystod 2013-14. Yn ein barn ni, roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:
  - wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar lefel briodol ar gyfer sefydliad cymharol fach ac a gymeradwywyd yn ffurfiol wedyn gan yr Awdurdod;
  - wedi'u llunio er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn nodau corfforaethol tymor hwy yr Awdurdod;
  - yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu; ac
  - wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb pan gawsant eu mabwysiadu gyntaf yn 2011.
- Roedd cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14:
  - wedi defnyddio fformat sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion a sut y bydd yn gwybod a yw wedi llwyddo;
  - yn cynnwys mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
  - yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn; ac
  - wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod a'i gyhoeddi ar ei ffurf derfynol ar 26 Ebrill, cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

36 Mae amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2013-14 yn barhad o'r rheiny a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2011-12 ac a ardystiwyd wedyn ac a gariwyd ymlaen i 2012-13. Roeddent ym mlwyddyn olaf rhaglen wella tair blynedd yr Awdurdod ac yn seiliedig ar y gofynion a nodwyd yn y Mesur Llywodraeth Leol. Buont yn destun adolygiad blynyddol gan yr Awdurdod a gynhaliwyd yng nghyd-destun y cynnydd a wnaed hyd yma a chanlyniadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

37 Roedd cynllun gwella'r Awdurdod yn cynnwys, ar gyfer pob amcan gwella, adrannau o dan y penawdau 'Byddwn yn Cyflawni Hyn Drwy' a 'Byddwn yn Gwybod ein Bod yn Llwyddo i Gyflawni'r Amcan Gwella Pan...' Mae'r adrannau hyn yn ddefnyddiol am eu bod yn nodi'n glir sut roedd yr Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei amcanion a'r profion yr oedd wedi'u rhoi ar waith er mwyn asesu a oedd amcanion wedi'u cyflawni.

38 Fel y nodwyd yn ein Llythyrau Asesiad Gwella, ar gyfer rhai dangosyddion perfformiad yng nghynllun gwella'r Awdurdod, nid oedd y targedau a bennwyd yn heriol iawn. Er y gallai hyn, ar yr olwg gyntaf, awgrymu diffyg uchelgais, roedd yr Awdurdod wedi cynnwys y targedau hyn at ddibenion gwirio er mwyn sicrhau, er y gallai perfformiad mewn rhai meysydd wella, na ddylai hyn gael effaith andwyol ar berfformiad mewn meysydd eraill.

39 Yn yr un llythyr mynegwyd ein barn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod wedi:

- cytuno ar gynllun gwella a nododd gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni gwelliannau;
- adolygu mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
- diweddaru ei raglen waith gorfforaethol, a nododd y gweithgareddau y byddai staff yn eu cyflawni o ddydd i ddydd drwy gydol y flwyddyn er mwyn helpu i gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14; a
- chwarae rhan weithredol mewn mentrau y bwriadwyd iddynt wella ansawdd ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS).

40 Cafodd *Cynllun Gwella'r* Awdurdod ar gyfer 2013-14 ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod ar ddiwedd mis Ebrill 2013. O fewn ychydig wythnosau, roedd copïau caled wedi'u darparu mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys Canolfannau Croeso'r Awdurdod, llyfrgelloedd lleol ac ym mhrif dderbynfa'r Awdurdod. Ni ddarparwyd fersiynau Braille ond gall pobl ddall a rhannol ddall ddefnyddio cymhwysiad meddalwedd am ddim sy'n ei gwneud yn bosibl i'r fersiwn ar wefan yr Awdurdod gael ei ddarllen iddynt.

41 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* i'r Awdurdod, dyddiedig 26 Hydref 2012, nodwyd na châi buddiannau posibl Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod eu gwireddu'n llawn hyd nes y byddai'r datganiad hwnnw yn cynnwys gwerthusiad ehangach o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. Ers anfon y llythyr hwnnw, bu cynrychiolwyr o'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru, yn bresennol mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru y bwriadwyd iddo helpu'r awdurdodau hynny i ddatblygu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol mwy gwerthusol mewn blynyddoedd i ddod. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru bellach yn cydweithio er mwyn gwella'r ffordd y maent yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu trefniadau llywodraethu, gan ystyried yr opsiwn o ddatblygu strwythur adrodd tebyg.

42 Yn ystod mis Ionawr 2014, gwnaethom gynnal adolygiad byr o drefniadau rheoli asedau'r Awdurdod. Yn sgil yr adolygiad hwnnw cyflwynwyd adroddiad ar wahân i'r awdurdod. Daethom i'r casgliad fod gan yr Awdurdod weledigaeth glir ar gyfer rheoli ei asedau a'i fod yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau y caiff yr asedau hynny cymaint o effaith gadarnhaol â phosibl. Daethom i'r casgliad hwnnw am y rhesymau canlynol:

- mae gan yr Awdurdod gynllun rheoli asedau cynhwysfawr, sy'n seiliedig ar arfer da ac sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol yn llawn;
- caiff rolau a chyfrifoldeb dros reoli asedau eu diffinio'n glir ac maent yn hwyluso trefniadau rheoli asedau effeithiol;
- mae'r Awdurdod yn gweithio'n dda gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan sefydlu llinellau cyfathrebu effeithiol a nodi pobl a sefydliadau a allai gyfrannu at y gwaith o reoli ei asedau, neu y gallai'r gwaith hwnnw effeithio arnynt; ac
- mae'r Awdurdod yn rheoli perfformiad ei asedau yn effeithiol mewn rhai meysydd ac yn rhoi ystyriaeth weithredol i faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd.

43 O ganlyniad i'n hadolygiad o drefniadau rheoli asedau, nodwyd un cynnig ar gyfer gwella.

## Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o heriau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf ond mae'n rhy gynnar i ddweud i ba raddau y byddant yn effeithio ar allu'r Awdurdod i sicrhau gwelliannau

44 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu rhai newidiadau sylweddol yn y dyfodol, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus ('Adroddiad Comisiwn Williams') a chanlyniad ymgynghoriad ar Fil Cynllunio newydd arfaethedig. Bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu awdurdodau parciau cenedlaethol hefyd.

45 Yn gyffredinol, mae'r newidiadau a gynigir gan Gomisiwn Williams a allai effeithio ar yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn llai sylweddol nag y gellid bod wedi'i ddisgwyl. Nid argymhellodd Comisiwn Williams y dylid cymryd y swyddogaeth gynllunio oddi ar awdurdodau parciau cenedlaethol ond awgrymodd y dylid ystyried opsiynau ar gyfer creu un awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio arfaethedig.

46 Er bod yr Awdurdod yn ymwybodol o newidiadau sylweddol a allai gael cryn effaith ar y ffordd y mae'n gweithredu ac, yn wir, ei fodolaeth, newidiadau arfaethedig yw'r rhain ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y toriadau cyllidebol sy'n ei wynebu dros y ddwy flynedd nesaf ac, o bosibl, ar ôl hynny.

47 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r senedd ar 20 Hydref 2010. Roedd hyn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i awdurdodau yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

48 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

49 Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru yn wynebu toriadau cyllidebol sylweddol yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Gwnaed y toriadau gan Lywodraeth Cymru, heb roi unrhyw sicrwydd na fydd angen toriadau pellach mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r toriadau yn cyfateb i ostyngiad o 8.75 y cant yn 2014-15 a 4 y cant arall yn 2015-16. Yn achos yr Awdurdod hwn, mae hyn yn cyfateb i fwy na £870k dros ddwy flynedd. Gan fod costau staff yn cyfrif am ganran sylweddol o gyllideb yr Awdurdod, mae'n anochel y bydd yr arbedion yn effeithio ar lefelau staffio, ac y bydd effaith ganlyniadol ar y gwasanaethau a ddarperir.

50 Wrth ystyried yr opsiynau a oedd ar gael ar gyfer gwneud arbedion, sicrhaodd yr Awdurdod, yn ddealladwy, fod rhai o'r cynigion a oedd yn cael eu trafod wedi'u cadw'n gyfrinachol. Roedd y cyfrinachedd hwn yn ymwneud yn bennaf â'r elfennau hynny o'r toriadau cyllidebol a fyddai'n effeithio'n bersonol ar rai unigolion a gyflogir gan yr Awdurdod. Mae'n amlwg y bydd polisi diswyddo'r Awdurdod yn chwarae rhan bwysig o ran y ffordd y mae'n ymdrin ag unrhyw swyddi a gollir o ganlyniad i'r toriadau. Cafodd y polisi hwn ei adolygu a'i gymeradwyo yn ddiweddar gan yr aelodau. Er nad arweiniodd hyn at unrhyw newidiadau sylweddol, mae meini prawf dewis bellach wedi'u hymgorffori yn fframwaith polisi'r Awdurdod.

51 Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd yr union drefniadau i gyflwyno'r toriadau cyllidebol wedi'u cadarnhau na'u rhannu â'r staff perthnasol. Felly, byddai'n amhriodol ei nodi yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, wrth weithio tuag at benderfyniad terfynol, mae'r Awdurdod wedi cynnwys staff, aelodau ac undebau llafur yn y broses o lunio nifer o opsiynau ar gyfer dod o hyd i'r arbedion gofynnol. Gan y bydd yn cymryd amser i wneud toriadau cyllidebol, mae'r Awdurdod wedi neilltuo ei gronfeydd wrth gefn arbennig ar gyfer risgiau er mwyn helpu i reoli'r broses.

52 Ar ddiwedd mis Ebrill 2014, bydd Aneurin Phillips yn ymddiswyddo o'i rôl fel prif weithredwr ar ôl dal y swydd am fwy na 10 mlynedd. Hysbysebodd yr Awdurdod y swydd a oedd ar fin dod yn wag yn allanol ond, yn y pen draw, penododd ei Gyfarwyddwr Rheoli Tir, Emyr Williams, i'r swydd. Ar hyn o bryd, nid yw'r prif weithredwr newydd wedi penderfynu a ddylid llenwi'r swydd sydd wedi dod yn wag o ganlyniad i benodiad Emyr Williams. Un opsiwn sy'n cael ei ystyried yw ei gadael yn wag ac adolygu'r sefyllfa yn ystod hydref 2014. Byddai ceisio llenwi'r ddwy swydd ar adeg pan fo'n rhaid i'r Awdurdod wneud arbedion sylweddol yn her sylweddol.

53 Daeth rhaglen tair blynedd yr Awdurdod i gyflawni amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol i ben ar ddechrau mis Ebrill 2014. Adolygwyd y rhain yn flynyddol gan yr Awdurdod. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd cyson o ran cyflawni'r amcanion hyn. O gofio'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod, mae hwn yn gyfle amserol i'r Awdurdod ganolbwyntio ar y meysydd hynny â blaenoriaeth sydd angen eu gwella neu sydd fwyaf agored i niwed mewn cyfnod o gyfyngiadau cyllidebol.

54 Bydd aelodau'r Awdurdod yn penderfynu, yn y pen draw, pa amcanion gwella y dylid ceisio eu cyflawni mewn unrhyw flwyddyn benodol. Felly, mae'n hanfodol cynnwys yr aelodau a sicrhau eu bod yn deall y materion sy'n wynebu'r Awdurdod. Mae presenoldeb yr aelodau mewn gwahanol gyfarfodydd wedi parhau i wella ac nid yw'n fater y mae angen rhoi sylw mawr iddo mwyach. Ym mis Mehefin 2013, cytunodd yr aelodau y dylai pennaeth yr Adran Bersonél gymryd cyfrifoldeb am gynnal adolygiadau datblygiad personol gyda'r aelodau. Gwnaed hyn yn rhannol er mwyn mynd i'r afael ag oedi wrth gynnal y cyfarfodydd blynyddol hyn. Fodd bynnag, mae adolygiadau datblygiad personol gryn dipyn ar ei hôl hi o hyd, er bod hyn yn ddealladwy, o bosibl, o gofio'r toriadau cyllidebol sy'n wynebu'r Awdurdod a chyfranogiad Pennaeth yr Adran Bersonél yn y broses o ystyried opsiynau sy'n cynnwys colli swyddi.

55 Mae'r ffocws ar ymdrin â'r toriadau cyllidebol, ynghyd â newidiadau diweddar ac arfaethedig eraill sy'n effeithio ar sefydliadau partner, hefyd wedi cael rhywfaint o effaith ar strategaeth hamdden yr Awdurdod a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Mae'r strategaeth hon yn ymgais uchelgeisiol i hwyluso a datblygu camau gweithredu i hyrwyddo hamdden. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran rhai agweddau, megis ymgorffori camau gweithredu yn rhaglenni gwaith gwasanaethau'r Awdurdod ac yn y broses arfarnu flynyddol ar gyfer penaethiaid adrannau staff perthnasol. Fodd bynnag, mae'r toriadau cyllidebol yn debygol o gael effaith ar gyflymder y cynnydd, yn ogystal ag unrhyw doriadau a fwriedir ar gyfer sefydliadau partner.

56 Mae Ffynnon yn ddatrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid. Mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, daw contract Llywodraeth Cymru gyda Coactiva Aspiren Ltd i gyflenwi system rheoli perfformiad meddalwedd Ffynnon i ben ar 30 Mehefin 2014. Oni all yr Awdurdod negodi ei gontract ei hun yn uniongyrchol gyda'r cwmni cyflenwi am gost resymol, gallai hyn gael cryn effaith ar allu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad ac adrodd arno. Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio contract pontio a allai sicrhau'r system rheoli perfformiad dros y ddwy flynedd nesaf. Deallwn fod y system hon bellach wedi'i sicrhau am gyfnod o 12 mis.

57 Comisiynodd tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru astudiaeth o'r cyfleoedd cydweithio ar gyfer adrannau cynllunio tri Pharc Cenedlaethol Cymru[3]. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2013. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o argymhellion a 'gwelliannau cyflym'. Croesawyd canfyddiadau'r adroddiad yn gyffredinol gan bob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru ac maent wedi dechrau ystyried ar y cyd sut y gellid gweithredu ar rai o'r argymhellion, gyda phob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn arwain gwahanol elfennau. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau ar gyfer mabwysiadu dulliau ar y cyd o adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol, ymgynghori ac opsiynau ar gyfer rhannu gwasanaethau a staff.

3 Cynhaliwyd gan Land Use Consultants.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £6.9 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £270 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd yr Awdurdod hefyd yn bwriadu gwario £0.88 miliwn ar eitemau cyfalaf.[4]

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau. Mae 12 yn aelodau etholedig a benodwyd gan gynghorau lleol sydd wedi'u lleoli, yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr Awdurdod a chwe aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae aelodaeth yr Awdurdod fel a ganlyn:

- Naw aelod a benodwyd gan Gyngor Gwynedd
- Tri aelod a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Chwe aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Prif Weithredwr yr Awdurdod yw Aneurin Phillips. Bydd yn ymddeol ym mis Ebrill 2014 a bydd Emyr Williams, Cyfarwyddwr Rheoli Tir presennol yr Awdurdod, yn cymryd ei le. Iwan Jones yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Jonathan Cawley yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod ei hun yn www.eryri-npa.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF.

4 Data ariannol a data poblogaeth a gafwyd o wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mr A Phillips
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Annwyl Mr Phillips

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd Awdurdod y Parc â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae Awdurdodau yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a ddeilliodd o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ar 18 Medi 2013 yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA260). Roedd y prif faterion a gododd fel a ganlyn:

- Nid oedd unrhyw 'gamddatganiadau nas cywirwyd' a dim ond nifer fach o 'gamddatganiadau a gywirwyd'.
- Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Mae'r trefniadau gwaith effeithiol a sefydlwyd yn flaenorol gyda staff cyllid wedi parhau ar gyfer y flwyddyn hon.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.  Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 11 Hydref 2013. Ni fu unrhyw her na gwrthwynebiad ffurfiol y bu'n rhaid i mi ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn. Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yn fy Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau staff yr Awdurdod a fu o gymorth wrth gwblhau fy archwiliad.

Yn gywir

**Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
6 Rhagfyr 2013

cc. Emyr Roberts, Rheolwr Cyllid

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella 2013/14* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.eryri-npa.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 a 2013-14 |
|---|
| **Gorfodi cynllunio**<br>• Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o pam a phryd y cymerir camau gorfodi.<br>• Bydd yn cymryd llai o amser i ddatrys achosion o ddatblygu anawdurdodedig honedig. |
| **Cymunedau**<br>• Bydd gan gynghorau cymuned a'n rhanddeiliaid allweddol ddealltwriaeth well o'r hyn a wna'r Awdurdod a nodweddion arbennig y Parc. |
| **Perfformiad**<br>• Bydd y trefniadau rheoli perfformiad yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau gwasanaethau ar adeg pan fo adnoddau yn brin.<br>• Bydd gan staff ac aelodau ddealltwriaeth well o'r ffordd y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod. |
| **Canolfannau croeso**<br>• Bydd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr â'r Canolfannau Croeso yn fodlon iawn ar yr hyn sydd gan y canolfannau i'w gynnig o ran y dewis o nwyddau a'u hansawdd, gwybodaeth a gwasanaeth cwsmeriaid. |
| **Gwasanaethau electronig**<br>• Mae'r amrywiaeth a'r math o wasanaethau sydd ar gael yn electronig yn diwallu anghenion y cyhoedd.<br>• Bydd defnyddwyr y gwasanaeth electronig yn fodlon iawn ar eu profiad. |
| **Polisi cynllunio**<br>• Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o'r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol. |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella ar gyfer 2012/13* a geir ar wefan yr Awdurdod yn www.eryri-npa.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk